


# D. G. Lloyd Hughes yn olrhain hanes Carthen Pwllheli

Ymhlith creiriau Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân yn Nhrefach-Felindre, Sir Gaerfyrddin, fe geir carthen fawr ddeuliw, rhai coch a llwydfelyn. Adwaenir hi yno fel 'Carthen Pwllheli'. Mae iddi dair rhan, a'r un amlycaf yw'r un yn y canol. Arni mae'r geiriau 'Cymru Fydd' ac oddi tano lun o Goleg Aberystwyth. Yn is i lawr mae'r geiriau 'Cymru Fu', ac oddi tanynt mae llun o Gastell Caernarfon. Uwch ac islaw iddyn nhw ceir dwy ddraig a thair cenhinen. Môr o gennin a chennin pedr yw'r gweddill o'r garthen. Mae'r llun, o brif rannau'r garthen, yn un sy'n gynwysiedig mewn taflen sy'n rhoi gwybodaeth am yr Amgueddfa.

Prif ffynhonnell gwybodaeth am y garthen yn yr Amgueddfa Werin yw'r hyn a ddatguddir mewn pennod ar 'The Commemorative Quilt' yn y gyfrol *The Textiles of Wales* gan Ann Sutton, a gyhoeddwyd yn 1987. Dywed honno mai gwaith John Roberts, gwehydd o Gaernarfon, oedd yr un wreiddiol, ac iddi gael ei chyflwyno i Dywysog Cymru ar achlysur ei ymweliad â Chaernarfon i agor y Gwaith Dŵr yn y flwyddyn 1876. All hanes y cyflwyniad hwn ddim bod yn wir oherwydd mai yn 1868 yr agorwyd y gwaith dŵr, a pha un bynnag, doedd Coleg Aberystwyth ddim mewn bod cyn 1872. Achlysur ymweliad nesaf Tywysog Cymru â Chaernarfon oedd yn ystod cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dref yn 1894, ond aflwyddiannus, mor belled, fu'r ymdrech i gysylltu cyflwyniad y garthen â'r digwyddiad arbennig hwnnw. Serch hynny, mae gwybod na ellid bod wedi llunio'r garthen arbennig hon cyn 1872 yn cynnig rhywfaint o arweiniad ar gyfer olrhain rhagor o'i hanes.

I ddechrau, a ellir sefydlu pwy oedd y John Roberts a wnaeth y garthen? Mae llawer i ddweud o blaid y syniad mai'r gŵr a oedd yn byw yn rhif 3, Love Lane, Caernarfon, oedd hwnnw. Yng Nghyfrifiad y Boblogaeth, 1871, datguddir iddo fod yn 34 mlwydd oed, yn enedigol o Gaernarfon, ac yn fasnachwr nwyddau gwlan yn cyflogi 14 o weithwyr. Nid oedd yn yr un lle naill ai yn 1881 nac yn 1891. Daw rhagor o wybodaeth o Gyfeirlyfrau Masnachol y Mri. Slater am 1868 ac 1880, sy'n enwi John Roberts, Masnachwr Gwlân, yn Love Lane ond, yn ychwanegol at yr hyn a



Rhan o Garthen Pwllheli.

ddatguddiwyd yng Nghyfrifiad 1871, roedd o hefyd yn berchennog ar un o'r ddwy felin wlan yn Llanrug. Orlheiniwyd enwau'r ddwy yng Nghyfrifiadau 1871, 1881 ac 1891 heb weld enw John Roberts yn gysylltiedig â nhw. Doedd dim angen, wrth gwrs, i berchennog fod yn byw yn ei felin ei hun.

Oherwydd na ddyfeisiwyd gwyddiau peiriannol (*power looms*) cyn dechrau'r 1880au, mae yn o glir mai ar wydd llaw y gwnaed y garthen wreiddiol. Golygai waith llaw cymhleth ac araf iawn ar gyfer sicrhau fod yr edau yn cyrraedd y gwýdd yn ôl trefn arbennig. Awgryma Ann Sutton y byddai angen gwýdd mor llydan ag un gydag un-ar-bymtheg o bleidiau arno ar ei chyfer, ond y ffordd rwyddaf fyddai defnyddio math arbennig o gyfarpar a ddyfeisiwyd yn nechrau'r 19 ganrif yn Ffrainc. Gwýdd Jacquard oedd hwnnw, un a ddarparai gyfundrefn neilltuol yn seiliedig ar gannoedd o gardiau tyllog ar gyfer trefnu lleoliad edau'r ystof, ac nid oes unrhyw achos i amau y gellid bod rhai o'r rheini wedi cyrraedd Cymru, yn enwedig erbyn

1872. Amcangyfrifwyd y cymerai'r rhan orau o wythnos i wneud y garthen ar wýdd llaw ond, gyda dyfodiad y gwyddiau peiriannol - gwyddys am rai yn ne-orllewin Cymru yn nechrau'r 1890au - cyflymid y broses i'r fath raddau fel y gellid ystyried cynhyrchu rhai i ddibenion masnachol.

Yr unig le a fu'n gwneud, a hynny mewn amrywiaeth o liwiau, meddai Ann Sutton, oedd Melin Wlan Trefriw. Cadarnhawyd hynny gan un o berchenogion y felin honno ond roedd rhywfaint o ansicrwydd yno ynglŷn ag o ba le y sicrhawyd y patrwm. Cynhyrchwyd y garthen yn Nhrefriw am y tro olaf yng nghyfnod Arwisgiad y Tywysog Charles yn 1969, a throsglwyddwyd yr holl gardiau i Felin Wlan Penmachno ar gyfer prosiect gwahanol yn ddiweddarach. Mae tua hanner y nifer ohonyn nhw yn Amgueddfa'r Diwydiant Gwlân. Tybed a yw'r hanner arall yn dal ar gael? Enw Melin Trefriw ar y garthen, gyda llaw, yw'r *Caernarfon & Aberystwyth Quilt*.

Beth bynnag am yr enw hwnnw mae'r enw Carthen Pwllheli sydd arni yn yr Amgueddfa yn awgrym clir fod a wnelo hen Ffatri Wlan Pwllheli â hi. Sefydlwyd y ffatri honno tuag 1870 gan John Griffith, cyn berchennog Ffatri Wlan Pen-y-caerau ym Mhenrhyn Llŷn, a'i fab ifanc John Griffith Jones, yn hen gapel Wesleaid y dref ar gyrion Stryd Penlan. Heb afon yn llifo heibio i weithio peiriannau fel peiriant nyddu, roedd hon yn gryn fenter iddo. Gorfodwyd iddo ddibynnu ar ffynhonnau'r dref i gael dŵr; bu'n rhaid aros tan 1878 cyn cael cyflenwad o ddŵr trwy bibau. Serch hynny roedd gan ffatri'r dref gryn fantais ar felinau'r wlad o'r cychwyn cyntaf gan fod nwy yn cael ei gynhyrchu ym Mhwellheli ers 1854, yn cael ei bibellu drwy'r lle, ac yn fuddiol tros ben ar gyfer cynhyrchu stêm i weithio peiriannau. Bu farw'r tad yn 1873 a rhedodd y mab y ffatri efo pymtheg neu ragor o weithwyr tan 1899 pan drosglwyddodd hi i'w frawd yng-nghyfraith, James Griffith. Wedi cael tân, caewyd y ffatri yn 1912 a hithau'n cyflogi ugain o bobol. Symudwyd y gwaith i Ffatri Wlan



Gweithwyr Ffatri Wlan, Pwllheli c. 1898-9.

(Parhad ar dudalen 10)